



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Penybryn  
Tywyn  
Gwynedd  
Gwynedd Council  
LL36 9EF**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn       | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu  |
|------------|--|
| Rhagorol   | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da         | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol               |
| Digonol    | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella  |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau                                |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2016

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Penybryn yn nhref Tywyn. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Ar hyn o bryd, mae 234 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 18 o ddisgyblion oed meithrin. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn naw dosbarth, sy'n cynnwys un oed cymysg.

Daw 22% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae oddeutu 13% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae oddeutu 24% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu ar waelod y Cyfnod Sylfaen. O flwyddyn dau i fyny, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2010. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penybryn yn 2016-2017 yw £3,465. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404, a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Penybryn yn y 79ain safle o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

|                                       |           |
|---------------------------------------|-----------|
| <b>Perfformiad presennol yr ysgol</b> | <b>Da</b> |
| <b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>      | <b>Da</b> |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr yno
- medrau'r llythrennedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer yn llwyddo i wneud cynnydd graddol yn eu defnydd o'r Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol
- rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn hyderus yn y Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2
- rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ar draws yr ysgol
- athrawon yn cyflwyno cwricwlwm ymarferol, sy'n ennyn chwilfrydedd ac awydd i ddysgu ymysg disgyblion
- gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i'r ysgol yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion i'w llawn botensial
- ethos o gyd weithio effeithiol yn bodoli ymysg y staff
- yr ysgol yn rhoi sylw haeddiannol i flaenoriaethau cenedlaethol sydd wedi arwain at wella safonau
- gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am ddata perfformiad ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i herio'r ysgol
- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn dangos bod gan arweinwyr adnabyddiaeth dda o'u hysgol
- cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau
- yr ysgol yn galluogi rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant drwy fynychu gweithgareddau cwricwlaidd
- yr ysgol yn defnyddio arbenigedd athrawon yn dda, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion

## Argymhellion

- A1 Parhau i godi safonau llafar a darllen Cymraeg
- A2 Codi cyfraddau presenoldeb a gwella prydlondeb disgyblion
- A3 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl llawn yn eu dysgu eu hunain

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau iaith rhan fwyaf y disgyblion yn isel. Er hyn, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae medrau meddwl a medrau datrys problemau llawer o ddisgyblion yn dda. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n briodol am eu gwaith. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn llwyddo i wneud cynnydd graddol yn eu defnydd o'r Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. O ganlyniad, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg, gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion yn trafod pwysigrwydd ailgylchu o fewn yr ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn sgwrsio am eu gwaith yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn ymateb i gwestiynau athrawon yn eiddgar ac yn esbonio eu syniadau'n glir, er enghraifft, wrth egluro a thrafod pa strategaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau o fewn eu gwaith mathemateg. Mae llawer yn defnyddio eu medrau trawsieithu yn effeithiol ar draws ystod o bynciau. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd yn ddigon rheolaidd wrth siarad gyda'u cyfoedion yn y dosbarth nac o gwmpas yr ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn briodol yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae ychydig o'r disgyblion mwy abl yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth addas o'r testun. Fodd bynnag, mae medrau darllen ar goedd ychydig o ddisgyblion yn wan. Mae diffyg rhuglder a mynegiant yn amharu ar eu gallu a'u mwynhad wrth ddarllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus yn y Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Fodd bynnag, nid yw safon darllen ychydig o ddisgyblion wedi datblygu i'r un graddau yn y Gymraeg. Nid yw'r ychydig hyn yn talu digon o sylw i atalnodi ac, o ganlyniad, nid yw eu mynegiant na'u dealltwriaeth o'r testun yn gadarn. Serch hynny, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau'n dda wrth gywain gwybodaeth. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn olrhain hanes Owain Glyndŵr a'i gyflwyno mewn amrywiaeth o ffurfiau diddorol.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn dangos gafael gadarn o strwythur brawddegau gan atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae llawer yn ysgrifennu'n briodol i'w hoed a'u gallu gan sillafu'n gynyddol gywir, er enghraifft, wrth ddisgrifio cynefin y wiwer ac wrth ysgrifennu deialog rhwng y robin goch a'r goeden. Mae gwaith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion ar frig y Cyfnod Sylfaen yn gadarn dda yn Saesneg. Maent yn datblygu syniadau'n ddiddorol mewn amrywiaeth o ffurfiau gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn sillafu geiriau ymestynnol yn gywir yn eu gwaith. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith creadigol ar 'My Journey'.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Mae strategaethau ysgrifennu llawer ohonynt yn datblygu'n addas yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn atalnodi eu gwaith yn gywir ac yn gwneud defnydd effeithiol o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o ffurfiau ac ar draws ystod o bynciau. Enghraifft dda o hyn yw portread o Owain Glyndŵr yng ngwaith hanes yn y Gymraeg, ac wrth ysgrifennu araith trwy gyfrwng y Saesneg, yn seiliedig ar hawliau dynol. Yn gyffredinol mae safon ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn dda yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft, wrth fesur hyd dail gan ddefnyddio unedau safonol ac ansafonol. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i gasglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar yn gywir. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn cyflwyno gwybodaeth am benblwyddi disgyblion y dosbarth mewn amrywiol ffyrdd. Mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn gwaith ymchwiliol, er enghraifft, wrth gynnal ymchwiliad i brofi os yw'r plentyn â'r rhychwant mwyaf yn taflu pêl bellaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod eang o strategaethau priodol i ddatrys problemau rhifedd yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, er enghraifft, wrth gyfrifo'r ffordd rataf o brynu cacennau ac wrth ddatrys problemau geiriol yn seiliedig ar gemau rygbi Cymru. Maent yn dadansoddi data, yn ymdrin â ffractsiynau a chanrannau yn ogystal â mesur perimedr ac arwynebedd yn gywir. Mae'r disgyblion mwy abl yn rhesymu eu hatebion yn aeddfed gan ragfynegi atebion cyn eu gwirio.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas i gyflwyno gwybodaeth. Maent yn hyderus wrth osod lluniau, testun a symbolau yn eu gwaith gan wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth reoli tegan er mwyn dilyn llwybr at gartrefi anifeiliaid yr hydref. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, er enghraifft, wrth iddynt gasglu a chyflwyno bas data i ddangos ôl traed carbon y dosbarth ar ffurf tabl a graff. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion o effaith llygredd ar yr amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i greu cyweithiau cartŵn animeiddio'n grefftus, gan ychwanegu sain a fideo i'w gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o daenlenni, er mwyn cyfrifo arwynebedd a pherimedr ar gyfer prynu carped i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r safonau a welwyd yn llyfrau disgyblion yn well nag y mae data perfformiad yr ysgol yn ei awgrymu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig yn gyffredinol wedi bod yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a datblygiad mathemategol. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch yn gyffredinol wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn y pynciau craidd yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemateg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r bechgyn yn perfformio cystal â'r merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg na mathemateg. Does dim patrwm penodol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefelau uwch yn y pynciau craidd.

Nid oes patrwm amlwg rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys ar y deilliannau na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae mwy o wahaniaeth rhwng y grwpiau hyn o ddisgyblion ar y deilliannau a'r lefelau uwch yn y ddau gyfnod allweddol.

### **Lles: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, a'r effaith cadarnhaol mae hyn yn ei gael ar y corff. Maent yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at eu lles a'u ffitrwydd.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn bryderus. Mae gan y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn y gymuned ehangach ac ar y we. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais ac yn dangos gofal a chonsyrn tuag at eraill. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd. Mae ethos cynhwysol iawn i'w theimlo ymysg y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-weithio'n dda o fewn grwpiau ac yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant da tuag at eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gweithredu'n annibynnol nac yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor gwyrdd yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn lleisio barn ar sut i wella a chefnogi'r ysgol. Maent wedi sicrhau cyflenwad pwrpasol o offer chwaraeon ar gyfer gweithgareddau adeg egwyl, er enghraifft. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan flaengar mewn gŵyl leol, gan helpu i drefnu gweithgareddau. Maent yn cyfrannu'n helaeth at bapur bro lleol 'Dail Dysynni', sy'n datblygu a chyfoethogi eu medrau llythrennedd yn dda, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu gymuned.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol yn gyson yn yr 50% is neu'r 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr.



|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b> | <b>Da</b> |
|--|-----------|

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r staff yn darparu ystod o brofiadau dysgu cynhwysfawr i'r disgyblion, sy'n cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn lled effeithiol. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio gweithgareddau ysgogol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Serch hynny, nid yw pob athro yn cynllunio'n ddigon medrus i sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Yn gyffredinol, mae gordddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu disgyblion rhag bod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ysgol yn cyflwyno a thracio gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol trwy eu hymgorffori'n llwyddiannus yn y cynlluniau gwaith. Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o weithgareddau buddiol sy'n datblygu medrau iaith, rhifedd a TGCh disgyblion mewn amrywiaeth o gyd-destunau o fewn y dosbarthiadau. Fodd bynnag, er bod yr ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn briodol, nid yw cynlluniau'r athrawon yn annog disgyblion i ymarfer eu medrau llafar Cymraeg yn ddigon cyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad mae llawer yn cyfathrebu â'i gilydd yn Saesneg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn briodol ar draws yr ysgol. Trwy astudio hanes lleol, chwedlau, a gwaith beirdd ac awduron o Gymru, fel Aneurin Caradog, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn effeithlon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o gynaladwyaeth a'i heffaith yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff, er enghraifft, trwy ailgylchu papur, dillad a lleihau ynni. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn fedrus drwy ailgylchu a gwerthu cynnyrch o ardd yr ysgol i wneud picl a siytni i werthu yn ffair yr ysgol, er enghraifft. Mae gan yr ysgol gysylltiad defnyddiol gyda gwledydd tramor wrth noddi plentyn yn Ghana. Mae hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach ac anghenion eraill sy'n llai ffodus.

### **Addysgu: Da**

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio gwersi'n ofalus ac yn ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Mae pwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol, sy'n ennyn chwilfrydedd ymysg y disgyblion. Defnyddir ystod eang o adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu'n dda. Lle mae'r addysgu fwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn cwstyynu'n fedrus, sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn synhwyrol. Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn dilyn trywydd a diddordeb y disgyblion yn greadigol. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae athrawon yn gorarwain disgyblion ac yn cyfyngu ar eu gallu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cyflwyno nodau addysgol yn llwyddiannus ac maent yn gosod meini prawf llwyddiant pwrpasol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn drylwyr ac yn cynnig sylwadau adeiladol, sy'n rhoi arweiniad clir iddynt ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i wella eu hymdrechion cyntaf.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd

Disgyblion, ac mae staff yn ei defnyddio'n llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu safonau'r disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau pwrpasol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgwr. Mae wedi ei threfnu'n effeithiol, ac mae'r staff yn cyfrannu'n dda at ddatblygu lles y disgyblion.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol a moesol mewn sesiynau amrywiol rheolaidd, gan gynnwys amser cylch, gwasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol gan sesiynau gyda'r heddwes cymunedol, er enghraifft. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas a rheolaidd o wasanaethau asiantaethau allanol, fel y swyddog lles a'r seicolegydd addysg, i gefnogi disgyblion unigol. Serch hynny, dydy'r gweithdrefnau presennol ddim wedi cael digon o effaith hyd yma ar godi cyfradd presenoldeb yr ysgol na gwella prydoldeb ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau da ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cynlluniau'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd a chadw eu hunain yn ddiogel.

Mae'r ysgol yn sicrhau cynhaliaeth pwrpasol i ddisgyblion. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae cyflwyniadau i rieni a disgyblion i godi eu hymwybyddiaeth am sicrhau ddiogelwch ar y wê, yn cael lle blaenllaw yng nghynlluniau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol cyfredol ar gyfer pob disgybl sydd ar y gofrestr. Darperir cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion sydd angen cymorth penodol drwy grwpiau ymyrraeth a chefnogaeth o fewn y dosbarth. Mae'r ysgol yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos hapus, a chynhwysol sy'n annog parch tuag at ddysgwyr ac oedolion. Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i gymryd cyfrifoldeb am eraill. Mae disgyblion hyn yr ysgol yn gofalu'n dda am y disgyblion iau drwy weithredu cynllun 'Ffrindiau Buarth'.

Mae polisiâu a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad eang o adnoddau sy'n cynnwys caledwedd TGCh sy'n cyfrannu at ddatblygu medrau digidol y dysgwyr yn llwyddiannus. Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol. Mae'r cyfan yn cyfleu awyrgylch ddysgu ysgogol a chadarnhaol.

Mae gan yr ysgol neuadd newydd a gwneir defnydd llawn ohoni ar gyfer gweithgareddau amrywiol fel gwasanaethau, cyngherddau a gwersi addysg gorfforol. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd eang o'r adeilad a thir yr ysgol, sy'n eu hannog i gadw'n iach a gwerthfawrogi byd natur. Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n daclus.

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b> | <b>Da</b> |
|--|-----------|

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i'r ysgol yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion i'w llawn botensial. Mae'n sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid yn rhannu'r un weledigaeth. Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu ethos o gyd weithio effeithiol ymysg y staff. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ail strwythuro'r tîm rheoli. Mae hyn wedi arwain at sicrhau cysondeb yn y drefn cynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur yn llawn, effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw haeddiannol i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae prosesau clir yn eu lle ar gyfer monitro effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Mae hyn wedi arwain at wella safonau mathemateg disgyblion mwy abl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, a gwella cyraeddiadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim.

Mae swydd ddisgrifiadau staff yn nodi cyfrifoldebau yn glir mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn bodoli, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr holl staff. Mae cofnodion cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau ac ar ddatblygu blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'i dyletswyddau'n gydwybodol ac yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau'r disgyblion yn addas. Maent yn ymgymryd mewn gweithgareddau monitro ac yn ysgrifennu adroddiadau priodol o'u hymweliadau. Mae hyn yn cryfhau eu gwybodaeth am safonau a sut mae'r ysgol yn mynd i'r afael â datblygu ei blaenoriaethau yn dda. Mae gan yr aelodau wybodaeth gadarn am ddata perfformiad ac maent yn ei ddefnyddio'n effeithiol i ddwyn yr ysgol i gyfrif er mwyn sicrhau gwelliant.

## **Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefn hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac wedi ei sefydlu'n gadarn ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, monitro gwersi a chywain barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio'r dystiolaeth sy'n deillio o ddata profion cenedlaethol ac asesiadau mewnol yn effeithiol i adnabod cynnydd ac i nodi agweddau i'w datblygu. Mae'r adroddiadau monitro, er braidd yn ddisgrifiadol mewn manau, yn bwydo'n effeithiol i adroddiad hunanarfarniad yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn amlygu'n ddigon clir yr agweddau sydd angen eu datblygu. Er hyn, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn dangos bod gan arweinwyr adnabyddiaeth dda o'u hysgol.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn deillio'n glir o'r meysydd a adnabuwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi adnabod yr angen am godi safonau gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys blaenoriaethau clir ar gyfer gwella, ynghyd ag adolygiad priodol o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn cynnwys amserlen gweithredu briodol, cyfrifoldebau staff, a gofynion cyllidol. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gyson.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni trwy gylchlythyron rheolaidd, a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn galluogi rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant drwy fynychu gweithgareddau cwricwlaidd fel datblygu strategaethau dysgu darllen, rhifedd a TGCh. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad y rhieni yn y broses ddysgu. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn codi arian sylweddol ar gyfer prynu adnoddau. Enghraifft dda o hyn, yw'r ardal allanol dan do yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cael effaith fuddiol iawn ar y ddarpariaeth.

Mae partneriaeth dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n helaeth at weithgareddau cymunedol, er enghraifft drwy annog y disgyblion i gymryd rhan yn yr eisteddfod leol. Datblygir y bartneriaeth yma ymhellach wrth i aelodau'r gymuned ddatblygu gardd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â nifer o fusnesau ac asiantaethau lleol ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar waith y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r drafodaeth a gafwyd rhwng y disgyblion ag aelod o'r cyngor ynglŷn â chostau parcio yn y dref, a sut mae hyn yn effeithio ar y gymuned a busnesau lleol. Mae hyn yn hyrwyddo cyfrifoldebau disgyblion o fewn eu cymuned yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau amrywiol yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol i wella safonau a lles disgyblion.

Mae perthynas fuddiol yn bodoli rhwng yr ysgol a sefydliadau cyn ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau pontio effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch i gyd safoni a chymedroli asesiadau wedi arwain at gysondeb a chywirdeb wrth lefelu gwaith disgyblion.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a chymorthyddion sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r staff a'r disgyblion yn dda ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r staff yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn effeithlon ac mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn llwyddiannus drwy gyd gynllunio ac asesu o fewn eu cyfnodau allweddol.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gefnogol ac mae'r athrawon yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd a chydag ysgolion sy'n rhannu'r un amcanion ar gyfer ymestyn safonau disgyblion. Un enghraifft yw'r ffordd y maent wedi cydweithio i ddatblygu medrau darllen a chreu adnoddau darllen ar y cyd.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff. Mae'r nifer o gysylltiadau ac ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon gydweithio ar agweddau penodol, fel gwella medrau ysgrifennu yn y Gymraeg.

Mae gan y pennaeth adnabyddiaeth dda o arbenigedd athrawon ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau'n synhwyrol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd athrawon i ddatblygu gwyddoniaeth, sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yr ysgol yn y maes hwn.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio grantiau penodol fel y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion hynny sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6612212 - Ysgol Gynradd Penybryn

|   |                 |
|---|-----------------|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr  | 239             |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.9            |
| Grŵp PYD  | 2 (8%<PYD<=16%) |

#### Cyfnod Sylfaen

|  | 2013 | 2014 | 2015  | 2016 |
|--|------|------|-------|------|
| <b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>                                    | 28   | 28   | 30    | 30   |
| <b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>                              | 85.7 | 89.3 | 90.0  | 86.7 |
